**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2019

Annwyl John,

**Hawliau pleidleisio i garcharorion**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf 2019, yn gofyn am eglurhad am sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio carcharorion ac etholfraint y Cynulliad, a phwy fydd yn gyfrifol am y mater hwn.

Rwy’n nodi bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar ar y mater hwn, a bod y llythyr hwnnw’n ymrwymo Llywodraeth Cymru i’r egwyddor o roi'r hawl i garcharorion bleidleisio ym mhob etholiad datganoledig yng Nghymru ac i chwilio am gyfle priodol i ddeddfu er mwyn caniatáu i garcharorion a phobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

Fel y nodwyd yn ymateb y Comisiwn i adroddiad y Pwyllgor, cytunodd y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf na fyddai’n briodol mewnosod darpariaethau ar hawliau pleidleisio carcharorion yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) fel gwelliannau. Nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn na fyddai hynny’n rhoi digon o gyfle i graffu ar ddarpariaethau deddfwriaethol ar fater cyfansoddiadol pwysig.

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ystyried hefyd a fyddai'n briodol iddo fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddarn o ddeddfwriaeth Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol. Mae'r Cynulliad, wrth gwrs, wedi rhoi mandad i'r Comisiwn gyflwyno deddfwriaeth i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol o hyd am y polisi o ran pob etholiad datganoledig yng Nghymru. Mae hwn hefyd

yn faes polisi llawer mwy cymhleth na roi'r hawl i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio. Am y rhesymau hyn, credwn fod datblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â hawliau pleidleisio carcharorion ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, a'r cyfrifoldeb am ymateb i'r rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor, yn fater i Weinidogion Cymru.

Gobeithio bod hyn yn rhoi eglurhad bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am y mater hwn, ac – wrth symud ymlaen – mai mater i Lywodraeth Cymru fydd mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau ynghylch sut y bydd yn ceisio cyflawni'r bwriad hwn.

Yn gywir

Elin Jones

Cadeirydd, Comisiwn y Cynulliad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English